

## Cwmpilin Enlli – Gwasanaeth Gweddi'r Hwyr

Boed i'r Arglwydd Hollalluog roi inni noson dawel a diweddglo perffaith.  
**Amen.**

Mae ein cymorth yn enw'r Arglwydd  
**sy'n llunio nefoedd a daear.**

**Ysbryd Sanctaidd Duw, sy'n ymsymud dros ddyfroedd gwyllt, aflonydd Enlli,  
Sy'n chwerthin gyda rhyferthwy neu siffrwd tyner y gwynt,  
Sy'n codi gyda phelydrau'r wawr ac yn noswyllo ymysg aneirif lu'r sêr,  
Bydd yn bresennol yma rŵan yn ein plith.  
Amen**

Dewch inni fyfyrion mewn tawelwch ar y dydd sy'n prysur ddirwyn i ben. Dewch inni ddwyn i gof yn ddwys, unrhyw boen a brofwyd ganddon ni heddiw - unrhyw dristwch ddaeth ar ein traws neu a welwyd mewn eraill.

TAWELWCH

Dewch inni fyfyrion gyda diolchgarwch ar lawenydd y dydd a fu – y cysylltiadau, y rhoddion, plethiadau cyfanwaith y llecyn hwn.

TAWELWCH

Dewch inni ddal yn llonyddwch ein calonnau unrhyw berson neu sefyllfa fydd yn destun gweddi inni heno.

TAWELWCH

Goleuwn olau lamp yr eicon i'n hatgoffa, hyd yn oed yn nŵch amdo'r tywyllwch, bod Crist, yn ein bywydau personol neu ym mywyd dynoliaeth, yn dân iasol sydd byth yn diffodd.

**Llafar-gân neu Ymateb** (*mae croeso i bawb gynnuau cannwyll yn ystod hyn*)

**Yr Arglwydd yw fy ngoleuni, Yn ein tywyllwch, does dim tywyllwch**

**Fy ngoleuni a'm hiachawdwriaeth. Gyda Thi, O Dduw.**

**Ymddiried wnaif yn Nuw, Tywyllaf nos sydd olau dydd!**

**y mddiried wnaif yn Nuw.**

**Darlleniad:**

Mae'r Arglwydd wrth law. Rhowch heibio eich holl bryder, am unrhyw beth, ond yn hytrach, ymhob dim trwy weddi, gyda diolchgarwch, gadewch i Dduw glywed dyheadau eich calon. A boed i dangnefedd Duw, sydd uwchlaw pob peth, gadw eich calonnau a'ch meddyliau yn lesu Grist.

**Tawelwch:** *Cyfnod o fyfyrddod, yn para tua 5 munud*

**Emyn y Cwmpilin:**

**Ar derfyn dydd yr ynys hon,  
Greawdwr byd, clyw weddi'r fron,  
Deisyfwn ras o'th gariad Di,  
A d'ofal Tadol droson ni.**



**Rhag pob un hunllef, ofn a braw,  
Cadw ni'n ddiogel yn Dy law;  
Bydd wrth ein hymyl oriau'r hwyr  
O'n pechod pura ninnau'n llwyr.**

**O Arglwydd, gofyn wnawn i Ti  
Trwy Iesu Grist, ein hangor ni,  
A'r Ysbryd Glân, trwy donnau'r lli  
A ddygo'n henaid atat Ti.  
Amen**

**Salm** (darllenir Salm)

I'th ddwylo Di, O Arglwydd, **yr ymddiriedaf fy mywyd.  
I'th ddwylo Di, O Arglwydd, y cyflwynaf fy ysbryd.**

Fe wnest i fy ngwared i, Arglwydd Dduw'r gwirionedd.

**Fe gyflwynaf fy ysbryd.**

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab, ac i'r Ysbryd Glân.

**I'th ddwylo Di, O Arglwydd, y cyflwynaf fy ysbryd.**

Cadw fi fel cannwyll dy lygad.

**Cuddia fi dan gysgod d'adenydd.**

Gofynnwn yn daer iti ymweld, O Arglwydd, â'r lle hwn, a thorri pob magl y gelyn; boed i'th angylion sanctaidd ein gwyllo a'n cadw mewn heddwch, a boed Dy fendith arnon ni yn dragwyddol; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

**Llafar-gân:** (*cenir un ai'r canlynol*) neu **Emyn**

**Ubi caritas et amor, ubi caritas, Deus ibi est**

(Lle bo cariad a thosturi, dyna lle mae Duw)

**Laudate Dominum, Laudate Dominum, omnes gentes, Alleluia**

(Cenwch, molwch a bendithiwch yr Arglwydd, bobloedd, cenhedloedd)

**Confitemini Domino quo-ni-am bonus, confitemini Domino, Alleluia**

(Tyrd a llenwa'n calonnau â'th dangnefedd, Ti yn unig O Arglwydd sydd sanctaidd)

Mewn heddwch y gorweddwn ac ildiw'n i gwsg;

**cansys Ti yn unig, Arglwydd, sy'n ein cadw'n ddiogel.**

Aros gyda ni, Arglwydd Iesu -

**mae'r nos gerllaw a'r dydd ar drai.**

Wrth i wylwr y nos ddisgwyl toriad y wawr,

**felly hefyd ninnau a ddisgwylw'n amdanat ti, O Grist.**

**Bydd inni, O Arglwydd, yn olau ar ein taith, bydd yn seren dywys uwch ein pen,**

**bydd Di'n llwybr esmwyth i'n cerddediad, bydd yn fugail clên o'n hôl,**

**heno a phob yfory. Amen.**

## Enlli Compline – Office of Night Prayer

The Lord Almighty grant us a quiet night and a perfect end.  
**Amen.**

Our help is in the name of the Lord  
**who is making heaven and earth.**

**Holy Spirit of God, brooding over Enlli's wild, restless waters,  
Laughing with the wind's fury or gentle touch,  
Rising with the sun and settling amidst the stars,  
Be present here among us now.  
Amen**

Let us reflect in silence on the day which is ending. Let us look deeply at any pain we have encountered today – any unhappiness we have experienced ourselves or seen in others.

SILENCE

Let us reflect with thankfulness on the joys of today – the connections, the gifts, the integrating wholeness of this place.

SILENCE

Let us hold in the silence of our hearts any people and situations we pray for tonight.

SILENCE

We light the icon lamp to remind us that even when we are shrouded in darkness, in our personal life or in the life of humanity, Christ's love is a fire that never dies out.

**Chant or Response** (*during which everyone is welcome to light a candle*)

**The Lord is my light,                      In our darkness, there is no darkness  
My light and salvation.                      With you O Lord.  
In God I trust, In God I trust. The darkest night is clear as the day!**

### Reading:

The Lord is at hand. Have no anxiety about anything, but in everything by prayer, with thanksgiving let your requests be made known to God. And the peace of God, which passes all understanding, will keep your hearts and your minds in Jesus Christ.

**Silence:** *A period of meditation, about 5 minutes long*

### Compline hymn:

**Before the ending of the day,  
Creator of the world, we pray  
That you, with steadfast love, would keep  
Your watch around us while we sleep.**



**From all ill dreams defend our sight,  
From fears and terrors of the night;  
Tread underfoot our deadly foe  
That we no sinful thought may know.**

**O Father, that we ask be done  
Through Jesus Christ, your only Son;  
And Holy Spirit, by whose breath  
Our souls are raised to life from death.  
Amen**

**Psalm**    (a psalm is read)

Into your hands, O Lord, I commend my spirit.

**Into your hands, O Lord, I commend my spirit.**

For you have redeemed me, Lord God of truth.

**I commend my spirit.**

Glory to the Father, and to the Son, and to the Holy Spirit.

**Into your hands, O Lord, I commend my spirit.**

Keep me as the apple of your eye.

**Hide me under the shadow of your wings.**

Visit we beseech thee O Lord this place, and drive from it all the snares of the enemy; may your holy angels dwell herein to preserve us in peace, and may your blessing be upon us evermore; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

**Chant:** (*we sing one of the following*) or a Hymn

***Ubi caritas et amor, ubi caritas, Deus ibi est***

(*Where love and compassion are, there God is*)

***Laudate Dominum, Laudate Dominum, omnes gentes, Alleluia***

(*Sing, praise and bless the Lord, peoples, nations*)

***Confitemini Domino quo-ni-am bonus, confitemini Domino, Alleluia***

(*Come and fill our hearts with your peace, you alone O Lord are holy*)

In peace we will lie down and sleep;

**for you alone, Lord, make us dwell in safety.**

Abide with us, Lord Jesus,

**for the night is at hand and the day is now past.**

As the night watch looks for the morning,

**so do we look for you, O Christ.**

**Be thou, O Lord, a bright flame before us, be thou a guiding star above us,**

**be thou a smooth path beneath us, be thou a kindly shepherd behind us,**

**tonight and always. Amen**